



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Strategaeth Genedlaethol ar Drais yn
erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a
Thrais Rhywiol

Fframwaith Cyflawni Traws-lywodraethol 2018-2021

CYNNWYS

Rhagair y Gweinidog	Tudalen 3
Crynodeb Gweithredol	Tudalen 4
Cyd-destun	Tudalen 5
Fframwaith Cyflawni:	
Amcan 1 a chymau gweithredu penodol	Tudalen 8
Amcan 2 a chymau gweithredu penodol	Tudalen 12
Amcan 3 a chymau gweithredu penodol	Tudalen 15
Amcan 4 a chymau gweithredu penodol	Tudalen 17
Amcan 5 a chymau gweithredu penodol	Tudalen 20
Amcan 6 a chymau gweithredu penodol	Tudalen 26
Camau nesaf	Tudalen 30

Rhagair y Gweinidog

Yn 2015 daeth Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 ('y Ddeddf) i rym - fe'i gelwid yn berffaith gywir yn ddarn o ddeddfwriaeth oedd yn torri tir newydd ac adeiladodd ar y cynnydd a wnaed ers cyhoeddi'r strategaeth Hawl i fod yn Ddiogel yn 2010.

Gwnaed llawer o gynnydd ers 2010 ac mae gwaith amlasiantaeth bellach yn gyffredin, ond mae mwy i'w wneud o hyd. Mae'r Ddeddf yn rhoi ffocws strategol, statudol ar y materion allweddol. Mae Strategaeth Genedlaethol Llywodraeth Cymru, sy'n ofynnol o dan y Ddeddf, yn adeiladu ar ein cynnydd ar y cyd hyd yma, ac yn blaenoriaethu darpariaeth ym meysydd atal, amddiffyn a darparu cefnogaeth.

Mae'r Fframwaith Cyflawni traws-lywodraethol hwn yn ategu ein Strategaeth ac mae rhanddeiliaid allweddol wedi bod yn rhan o'r gwaith o'i ddatblygu. Mae'n nodi sut y mae Llywodraeth Cymru yn cyflawni'r camau gweithredu o fewn y Strategaeth gyda'r nod o symud tuag at gymdeithas lle mae pawb yn gallu byw heb ofn.

Er bod y Fframwaith Cyflawni hwn yn nodi sut y bydd Llywodraeth Cymru yn bodloni'r ymrwymadau a wnaed yn y Strategaeth Genedlaethol, ni allwn, ar ein pen ein hunain, newid diwylliant a dileu trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Mae arnom angen i wasanaethau cyhoeddus weithio gyda rhanddeiliaid i godi ymwybyddiaeth a newid diwylliant, amddiffyn a chefnogi pobl sy'n dioddef trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol a gweithio i'w atal yn y dyfodol.

Rydym wedi cefnogi awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol er mwyn eu galluogi i ddatblygu a chyhoeddi strategaethau lleol sy'n nodi sut y byddant yn cyflawni hyn. Rydym wedi gofyn i gyrff statudol ddod at ei gilydd yn rhanbarthol i gomisiynu gwasanaethau, ac rydym yn cefnogi rhwydweithiau i rannu arferion da.

Ni fydd gwella ansawdd gwasanaethau, â'r mynediad atynt, yn ogystal â thrawsnewid agweddau ac ymddygiadau cymdeithasol yn hawdd. Rydym am i'r camau gweithredu a nodwyd yn y Fframwaith hwn adeiladu ar y sylfeini sydd eisoes wedi cael eu gosod fel y gallwn, gyda'n gilydd, adeiladu sector cryfach, mwy cydnerth, cefnogi ac amddiffyn dioddefwyr a goroeswyr a gweithio tuag at ddileu trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.



Julie James, AC, Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip

Crynodeb Gweithredol

Cyhoeddir y Strategaeth Genedlaethol ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol o dan adran 4 y Ddeddf ac mae'n nodi'r hyn y bydd Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gyfrannu tuag at gyflawni diben y Ddeddf.

Yn ei thro, mae'r ddeddf yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol i baratoi a chyhoeddi strategaethau lleol ar y cyd i fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Mae'r Strategaeth yn amlinellu'r chwe amcan allweddol y mae Gweinidogion Cymru yn disgwyl eu cyflawni erbyn Tachwedd 2021 ac maent yn gydnaws â chyflawni diben y Ddeddf sef gwella:

Trefniadau ar gyfer **atal** trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol

Amcan 1: Cynyddu ymwybyddiaeth a herio agweddau ynghylch trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ar draws poblogaeth Cymru

Amcan 2: Cynyddu ymwybyddiaeth plant a phobl ifanc o bwysigrwydd perthnasoedd diogel, cyfartal ac iach, a'r ffaith fod ymddygiad camdriniol yn anghywir bob amser

Amcan 3: Mwy o ffocws ar ddwyn cyflawnwyr i gyfrif, a darparu ymyriadau a chymorth iddynt newid eu hymddygiad gyda phwyslais ar ddiogelwch y dioddefwr.

Amcan 4: Rhoi blaenoriaeth i ymyrryd yn gynnar ac atal

Trefniadau ar gyfer **amddiffyn** dioddefwyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol

Amcan 5: Hyfforddi gweithwyr proffesiynol perthnasol i ddarparu ymatebion effeithiol, amserol a phriodol i ddioddefwyr a goroeswyr

Y cymorth i bobl yr effeithir arnynt gan drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol

Amcan 6: Rhoi mynediad cyfartal i ddioddefwyr at wasanaethau ledled Cymru, a'r rheini'n wasanaethau holistaidd o ansawdd uchel y darperir adnoddau priodol ar eu cyfer, sy'n seiliedig ar gryfderau, sy'n cael eu harwain gan anghenion ac sy'n ymatebol i rywedd.

Mae'r Fframwaith Cyflawni traws-lywodraethol hwn yn amlinellu'r camau gweithredu penodol y byddwn yn eu cymryd i gyflawni'r amcanion a amlinellir uchod.

Strategaeth Genedlaethol ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol

Mae'r Strategaeth Genedlaethol ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Y Strategaeth) yn nodi'r amcanion trosfwaol y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cyflwyno mewn partneriaeth â rhanddeiliaid i ddatblygu diben Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015.

Mae ein dull o fynd ati i alluogi unigolion a grwpiau yn ein cymunedau i fyw heb ofni trais a chamdriniaeth yng Nghymru yn adlewyrchu'r ffordd rydym yn defnyddio'r pum dull o weithio a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ("Deddf 2015): Cynnwys, Atal, Integreiddio, Hirdymor a Chydweithio. Mae'r gwaith yn cyfrannu at gyflawni'r holl nodau llesiant. Mae'n cyfrannu hefyd at amcanion llesiant Llywodraeth Cymru, yn enwedig: hyrwyddo iechyd da a llesiant i bawb; creu cymunedau mwy iach ac amgylcheddau gwell; helpu pobl i wneud y mwyaf o'u potensial; datblygu uchelgais ac annog dysgu i fyw; datblygu cymunedau, diwylliant ac iaith sy'n gydnerth; hyrwyddo a diogelu lle Cymru yn y byd.

Mae angen i gyrrff cyhoeddus hefyd ddilyn y 5 ffordd o waith er mwyn dangos eu bod wedi dilyn yr egwyddor datblygu cynaliadwy. Bydd dilyn y ffyrdd hyn o weithio yn ein helpu i gydweithio'n well, gan osgoi ailadrodd camgymeriadau'r gorffennol a mynd i'r afael â rhai o'r heriau hirdymor rydym yn eu hwynebu. Amlinellir rhai enghreifftiau o'r modd rydym wedi ymgorffori'r egwyddorion hyn isod.

- **Hirdymor**

Pwysigrwydd cydbwyso anghenion tymor byr gyda'r angen i ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion hirdymor hefyd.

Rydym wedi darparu e-ddysgu i godi ymwybyddiaeth o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ar gyfer yr holl staff yn y sector cyhoeddus, wrth gymryd ymagwedd raddol at ddarparu hyfforddiant 'Gofyn a Gweithredu' i weithwyr proffesiynol mewn awdurdodau perthnasol.

- **Atal**

Sut y gall gweithredu i atal problemau rhag codi neu waethygu helpu cyrrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion.

Rydym wedi sicrhau bod canllawiau drafft ar gomisiynu gwasanaethau mewn perthynas â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn cynnwys ystyried goblygiadau penodol i gomisiynu gwasanaethau i gyflawnwyr.

- **Integreiddio**

Ystyried sut y gallai amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar eu hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill.

Rydym yn gweithio gydag Awdurdodau Addysg Lleol ac ysgolion i ddatblygu cwrwclwm newydd ar gyfer Perthnasoedd Iach a Rhywioldeb i'w weithredu erbyn 2023.

- **Cydweithio**

Cydweithio ag unrhyw berson arall (neu wahanol rannau o'r corff ei hun) mewn ffyrdd a allai helpu'r corff i gyflawni ei amcanion llesiant.

Rydym yn gweithio gyda'r rhanbarthau i lywio'r broses o gaffael y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol newydd.

- **Cynnwys**

Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â buddiant mewn cyflawni'r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny yn adlewyrchu amrywiaeth yr ardal y mae'r corff yn ei gwasanaethu.

Er mwyn sicrhau bod safbwyntiau ac anghenion y goroeswr yn cael eu hadlewyrchu, rydym wedi sefydlu Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â Goroeswyr sy'n llywio polisi Llywodraeth Cymru ac yn cefnogi goroeswyr trais i addysgu eu cyfoedion a chodi ymwybyddiaeth.

Bydd y blaenoriaethau a nodir yn y Fframwaith traws-lywodraethol hwn yn cyfrannu at geisio atal trais a cham-drin, diogelu dioddefwyr a chefnogi pawb sy'n cael eu heffeithio. Y nod yn y pen draw yw symud tuag at gymdeithas lle mae pawb yn gallu byw heb ofn.

Mae'r fframwaith cyflawni traws-lywodraethol hwn yn amlinellu'r camau gweithredu penodol a gyflwynwyd hyd yn hyn, a'r hyn rydym yn bwriadu ei gyflwyno dros y 3 blynedd nesaf i gyflawni'r ymrwymadau o fewn y Strategaeth.

Dangosyddion Cenedlaethol a Mesur Cynnydd

Mae'r Cynghorwyr Cenedlaethol yn cefnogi Gweinidogion Cymru i gyhoeddi'r Dangosyddion Cenedlaethol ar gyfer trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol erbyn diwedd 2018 ac maent wrthi'n gweithio i sicrhau eu bod yn cydfynd â'r dangosyddion llesiant cenedlaethol. Bydd ein hadroddiadau blynyddol yn y dyfodol yn cynnwys cynnydd yn erbyn y Dangosyddion Cenedlaethol yn ogystal â chyflawniadau hyd yma o ran cyflwyno'r Fframwaith hwn.

Bwriad y Fframwaith yw bod yn ddogfen fyw a fydd, ar ôl cyhoeddi'r Dangosyddion Cenedlaethol, yn cael ei ddiweddarau i amlinellu mwy o fanylion ar yr amserlenni ar gyfer cyflawni a sut y byddwn yn mesur y cynnydd tuag at gyflawni ein hymrwymadau. Bydd hyn yn sicrhau bod y Fframwaith yn parhau'n gyfredol ac yn adlewyrchu heriau cyfredol ac ymatebion Llywodraeth Cymru.

Amcanion a Chamau Gweithredu

Gan fod y Fframwaith hwn yn nodi'r dull traws-lywodraethol, bydd rhai camau gweithredu yn cyflawni yn erbyn mwy nag un o amcanion y Strategaeth Genedlaethol. Lle mae hyn yn wir, bydd yn cael ei nodi'n glir yn yr adroddiad blynyddol.

Ymgysylltu â Rhanddeiliaid a Gweithio mewn Partneriaeth

Ni fydd modd mynd i'r afael yn llwyddiannus â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol trwy gamau gweithredu Llywodraeth Cymru yn unig. Rydym yn ymrwymedig i gynnal a datblygu perthynas waith agos gyda phartneriaid eraill yn y sector cyhoeddus, y llywodraeth a'r trydydd sector. Mae'r partneriaid yn cynnwys, ond heb eu cyfyngu i: Llywodraeth Leol o ran arfer eu hamryw swyddogaethau megis Gwasanaethau Cymdeithasol, Addysg a Thai; Byrddau Iechyd Lleol; yr Heddlu; Comisiynwyr Heddlu a Throseddu; y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a'r Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr; sefydliadau heb eu datganoli a rhwydwaith genedlaethol y darparwyr gwasanaethau arbenigol annibynnol ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

FFRAMWAITH CYFLAWNI

Mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi adroddiadau blynyddol ar y cynnydd a wneir tuag at gyflawni'r amcanion yn y Strategaeth Genedlaethol a diben Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015. Cafodd yr adroddiad cyntaf (Hydref 2015 i 31 Mawrth 2017) ei osod yn y Cynulliad Cenedlaethol ar 16 Ionawr¹ a'r ail adroddiad blynyddol ar 21 Mehefin 2018. Dylid darllen y Fframwaith Cyflawni hwn ar y cyd â'r adroddiadau blynyddol.

Diben y Ddeddf Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais

Rhywiol: Atal

Dull gweithio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol: Hirdymor, Atal, Cydweithio

Mae Llywodraeth Cymru drwy addysg, grymuso ac ymgysylltu, wedi ymrwmo i herio agweddau ac ymddygiadau ar draws cymdeithas sy'n arwain at drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, ac i geisio ffyrdd i'w hatal rhag digwydd yn y lle cyntaf.

Mae pedwar o'r amcanion yn cefnogi diben atal.

Amcan 1: Cynyddu ymwybyddiaeth a herio agweddau ynghylch trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ar draws poblogaeth Cymru

Byddwn yn parhau i herio agweddau er mwyn atal trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol rhag digwydd yn y lle cyntaf. Yn y pen draw, bwriadwn greu cymdeithas nad yw'n goddef y trais a'r cam-drin hwn.

Yr hyn y dywedodd y Strategaeth y byddai Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gyflawni'r amcan hwn a'r hyn y byddwn yn ei gyflawni yn benodol:

Datblygu Fframwaith Cyfathrebu Cenedlaethol gan ymgynghori â rhanddeiliaid, er mwyn sicrhau dull mwy cydlynol a hirdymor o fynd ati i ymgysylltu a chyfathrebu. Bydd y fframwaith yn parhau i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd a newid normau, gwerthoedd, daliadau, agweddau, ymddygiadau ac arferion cymdeithasol mewn perthynas â phob math o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol

Rydym wedi:

- datblygu a gweithredu Fframwaith Cyfathrebu mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol;
- comisiynu adolygiad llenyddiaeth i sefydlu arfer da ar gyfer ymgyrchoedd trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yng Nghymru ac wedi defnyddio'r adolygiad hwn i bennu gweithgaredd cyfathrebu; a
- datblygu ymgyrchoedd megis:

¹<http://www.assembly.wales/laid%20documents/gen-ld11358/gen-ld11358-w.pdf>

- "Dyma fi"² sydd â'r nod o fynd i'r afael â stereoteipio ar sail rhyw fel cyfrannwr i anghydraddoldeb rhywiol ac felly achos a chanlyniad trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol;
- "Paid cadw'n dawel"³ sy'n annog unrhyw un sy'n poeni y gallai rhywun fod yn dioddef trais i ofyn "Wyt ti'n iawn?"

Byddwn yn:

- parhau i ddatblygu ymgyrchoedd newydd mewn partneriaeth â rhanddeiliaid a goroeswyr;
- sicrhau, yn ogystal ag ymgyrchoedd cenedlaethol, bod negeseuon ymgyrchoedd yn cael eu cyflwyno, eu harchwilio a'u hyrwyddo o fewn lleoliadau cymunedol allweddol; a
- sefydlu Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â Goroeswyr sy'n llywio polisi Llywodraeth Cymru ac yn cefnogi goroeswyr trais i addysgu eu cyfoedion a chodi ymwybyddiaeth.

Byddwn yn herio agweddau diwylliannol a all fod yn sail i arferion niweidiol traddodiadol megis Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod (FGM), priodas dan orfod (FM) a Thrais ar sail Anrhydedd (HBV), a hynny trwy weithio gyda gwasanaethau trais yn erbyn menywod sy'n arbenigo mewn cymorth i gymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yng Nghymru. Byddwn yn eu cynorthwyo i ennyn ymgysylltiad a chefnogi hyrwyddwyr cymunedol i wella ymatebion cymunedol i oroeswyr trais a chamdriniaeth.

Rydym wedi:

- nodi Diwrnod Rhyngwladol Dim Goddefgarwch tuag Atal Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod, trwy drefnu cynhadledd gymunedol – *Making Our Voices Heard*, i adeiladu ymddiriedaeth â chymunedau a'u hannog i gydweithio â'r llywodraeth a gwasanaethau cyhoeddus i herio a dileu'r arfer hwn;
- cynnal digwyddiad ieuencid o'r enw DECHREUWCH SGWRS! i annog a chefnogi pobl ifanc, fel arweinwyr y dyfodol, i gyfrannu at y mudiad ieuencid byd-eang ar hawliau merched;
- ennill gwobr am weithio mewn partneriaeth â NSPCC a BAWSO; dyfarnwyd y wobwr am waith ar brosiect i fynd i'r afael â a chodi ymwybyddiaeth am anffurfio organau cenhedlu benywod gyda phobl ifanc yng Nghymru;
- ariannu prosiect partneriaeth ieuencid, "Llais nid Tawelwch"⁴ i godi ymwybyddiaeth o'r arfer o anffurfio organau cenhedlu benywod; Daeth y prosiect hwn ag arbenigwyr bydwreigiaeth, NSPCC a BAWSO ynghyd ac enillodd Wobrau Coleg Brenhinol y Bydwagedd⁵; ac
- fel rhan o waith y Grŵp Arweinyddiaeth FGM, HBV a FM, creu logo Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod a chefnogi clinig Lles Menywod arbenigol cyntaf Cymru.

Byddwn yn:

² <https://www.youtube.com/watch?v=mWBEsc5M1jA>

³ <https://www.youtube.com/watch?v=ISX9Os3N-KI>

⁴ <http://livefearfree.gov.wales/campaigns/voices-over-silence?lang=cy>

⁵ <http://www.cardiffandvaleuhb.wales.nhs.uk/news/44273>

- cadeirio'r Grŵp Arweinyddiaeth FGM, HBV a FM ar y cyd gyda Gwasanaeth Erllyn y Goron;
- comisiynu ymchwil i nodi prosiectau a gweithgareddau sy'n herio agweddau diwylliannol tuag at FGM, FM a HBV yng Nghymru;
- gweithio gyda gwasanaethau trais yn erbyn menywod sy'n arbenigo mewn cymorth i gymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yng Nghymru i ennyn ymgysylltiad a chefnogi hyrwyddwyr cymunedol;
- comisiynu datblygu canllawiau ymarfer ar ddiogelu plant rhag cam-drin sy'n gysylltiedig â diwylliant a daliadau crefyddol, gan gynnwys FGM, HBV a FM; a
- chodi ymwybyddiaeth o fewn y cymunedau, gan gynnwys mynychu digwyddiadau a chyfarfodydd yn y gymuned.

Fel rhan o'r Fframwaith Cyfathrebu Cenedlaethol, byddwn yn mynd ati'n gadarnhaol i ennyn ymgysylltiad dynion a bechgyn o ran herio pob math o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Rydym wedi:

- ymgynghori â grwpiau rhanddeiliaid sy'n cefnogi dynion i lywio ein hymgyrchoedd;
- ymgysylltu â dynion a bechgyn ifanc yn ystod y gwaith datblygu ar gyfer ymgyrchoedd trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol 2018-2020;
- cefnogi Ymgyrch y Rhuban Gwyn i roi terfyn ar drais dynion yn erbyn menywod trwy hyrwyddo'r ymgyrch ar draws gwasanaethau cyhoeddus Cymru, sicrhau achrediad fel Llywodraeth, hyrwyddo rôl y Llysgennad a thafllunio'r rhuban gwyn ar safleoedd, megis Castell Conwy a Chaerffili ac Adeilad y Pierhead ym Mae Caerdydd; a
- chyhoeddi ffilm i nodi Diwrnod Rhyngwladol Diddymu Trais yn erbyn Menywod, yn cynnwys Llysgenhadon Rhuban Gwyn.

Byddwn yn:

- parhau i weithio gyda Llysgenhadon Rhuban Gwyn a rhanddeiliaid allweddol i hyrwyddo Ymgyrch y Rhuban Gwyn⁶, sy'n annog dynion a bechgyn i wneud safiad yn erbyn trais dynion yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol;
- ceisio sicrhau bod dynion a bechgyn yn cael eu cynrychioli ym mhob ymgyrch ac yn gallu cyfrannu at eu datblygiad; a
- datblygu ymgyrchoedd yn seiliedig ar adborth a thystiolaeth goroeswyr a cheisio cynrychioli Cymru gyfan ynddynt.

Rhoi'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol⁷ ar waith yn llawn, gan sicrhau bod y gweithwyr proffesiynol perthnasol yn cael eu hyfforddi i ymateb yn effeithiol, yn brydlon ac yn briodol i ddioddefwyr a goroeswyr.

Rydym wedi:

- datblygu a chyhoeddi'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol; mae hwn yn ganllaw statudol;

⁶ <https://www.whiteribbon.org.uk/>

⁷ <http://www.senedd.cynulliad.cymru/documents/s48757/CLA4-03-16%20-%20Papur%206.pdf>

- datblygu a chyflwyno rhaglen e-ddysgu i godi ymwybyddiaeth o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, cynyddu gwybodaeth am y dangosyddion a gwella hyder y dysgwr i gynnig cymorth trwy linell gymorth Byw Heb Ofn; ac
- ariannu hyfforddiant cenedlaethol wedi'i dargedu ar gyfer gweithwyr cam-drin domestig, gan ehangu'n sylweddol nifer y gweithwyr proffesiynol cymwys arbenigol ledled Cymru:
 - cynnig bwrsariaeth i fynd i'r afael â bwlch hyfforddiant ar gyfer Ymgynghorwyr Annibynnol Arbenigol ar Drais Rhywiol;
 - darparu'r cwrs hyfforddi Cymraeg cyntaf ar gyfer rheolwyr gwasanaethau arbenigol;
 - creu cwrs hyfforddi newydd ar gyfer gweithwyr a chynghorwyr argyfwng trais rhywiol;
 - creu maes llafur pwnc arbenigol o unedau achrededig Agored Cymru i helpu safoni hyfforddiant ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ledled Cymru; a
 - chreu cyfres o ffilmiau wedi'u hanelu at arweinyddiaeth gwasanaethau cyhoeddus i godi ymwybyddiaeth o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Byddwn yn:

- parhau i gyflwyno'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol;
- parhau i gyflwyno a monitro e-ddysgu Llywodraeth Cymru ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol;
- parhau i ddatblygu a chyflwyno "Gofyn a Gweithredu"⁸ a hyfforddiant hyrwyddwyr "Gofyn a Gweithredu" yn genedlaethol;
- mynd i'r afael â bylchau hyfforddi a nodwyd trwy ddatblygu a chyflwyno rhaglen ddysgu ar gyfer ymarferwyr cam-drin domestig;
- ailddatblygu a chyflwyno'r rhaglen hyfforddi ar gyfer rheolwyr gwasanaethau arbenigol trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol;
- parhau i gynnig cyfleoedd dysgu i arweinwyr Gwasanaethau Cyhoeddus i ddeall nodau'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol ac arwain y broses o'i roi ar waith o fewn eu sefydliadau;
- gweithio'n draws-lywodraethol a chyda phartneriaid arbenigol i greu Fframwaith Datblygiad Proffesiynol Parhaus (yn seiliedig ar y maes llafur pwnc arbenigol) a chymhwyster arbenigol ar gyfer rôl gwirfoddolwyr o ran cyflwyno gwasanaethau trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol; a
- monitro ac asesu bylchau a chyfleoedd dysgu gyda'r nod o fynd i'r afael â'r rhain cyn belled ag y bo'n ymarferol.

Astudiaeth Achos: Ymgyrch "DYMA FI"

Lansiwyd Ymgyrch "DYMA FI" ym mis Ionawr 2018. Amcanion yr ymgyrch oedd:

- cyfathrebu negeseuon cadarnhaol sy'n dathlu amrywiaeth o ran rhywedd;
- dechrau sgwrs am anghydraddoldebau a stereoteipiau o ran rhywedd;

⁸ <https://gov.wales/docs/livefearfree/171129-ask-and-act-overview-cy.pdf>

- edrych ar effaith anghydraddoldeb o ran rhywedd, normau a stereoteipiau fel achosion a chanlyniadau trais a cham-driniaeth;
- hyrwyddo cydraddoldeb o ran rhywedd; ac
- annog pobl i ddarganfod mwy trwy fynd i dudalen yr ymgyrch ar wefan Byw Heb Ofn.

O ganlyniad i "DYMA FI":

- cafwyd bron i ddwy filiwn o argraffiadau ar draws Sky a S4C yn ystod y cyfnod hysbysebu teledu o bythefnos;
- cafwyd bron i bum miliwn o argraffiadau (4,769,218) ar draws y tair gorsaf radio yn ystod cyfnod yr ymgyrch;
- cynyddodd sesiynau ar wefan "Byw Heb Ofn" 6,042% yn ystod cyfnod yr ymgyrch;
- cafwyd cynnydd o 44% yn nifer y rhai a nododd eu bod yn hoffi'r dudalen ar Facebook ers y lansiad;
- cafwyd mwy na phum miliwn o argraffiadau trwy Rwydwaith Google Display; ac
- roedd y sylw a gafwyd ar y cyfryngau adeg y lansiad yn hynod gadarnhaol ac yn cynnwys cyfweiliadau gyda rhanddeiliaid allweddol yr ymgyrch.

Amcan 2: Gwell ymwybyddiaeth ymhlith plant a phobl ifanc o bwysigrwydd perthnasoedd diogel, cyfartal ac iach, a'r ffaith fod ymddygiad camdriniol yn anghywir bob amser

Yn y tymor hir, gwyddom fod trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn gallu cael effaith enfawr ar blant a phobl ifanc. Gall effeithio ar eu diogelwch, eu hiechyd a'u llesiant, eu cyrhaeddiad addysgol, eu perthynas â'u teuluoedd a'u cyfoedion, a'u gallu i fwynhau perthnasoedd iach, hapus a llawn parch yn y dyfodol.

Yr hyn y dywedodd y Strategaeth y byddai Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gyflawni'r amcan hwn a'r hyn y byddwn yn ei gyflawni yn benodol:

Gweithio gydag ysgolion, awdurdodau lleol a chonsortia addysg ranbarthol i weithredu'n llawn a monitro'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol, gan sicrhau bod gweithwyr addysg proffesiynol yn ymwybodol o arwyddion trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ac yn gallu ymateb yn briodol.

Rydym wedi:

- comisiynu ac asesu pob cynllun hyfforddi o dan y canllawiau statudol ar y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol a darparu cefnogaeth ac adborth unigol i'r holl awdurdodau perthnasol.

Byddwn yn:

- parhau i weithio'n strategol o fewn Llywodraeth Cymru a chyda rhanddeiliaid allanol i ymateb i argymhellion y Panel o Arbenigwyr Rhyw a Perthnasoedd;
- sicrhau bod y Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn llywio'r gwaith o ddatblygu'r cwricwlwm newydd a

- chanllawiau ac ymgorffori rhwymedigaethau a gofynion trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn y cwricwlwm newydd; a
- gweithio'n strategol o fewn Llywodraeth Cymru a chyda rhanddeiliaid allanol i gysoni'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol gyda hyfforddi athrawon yn flynyddol.

Cynorthwyo ysgolion i addysgu plant a phobl ifanc am bwysigrwydd parch a chydysniad mewn perthnasoedd trwy adeiladu ar y Canllaw Arferion Da: Dull Addysg Gyfan o Fynd i'r Afael â Thrais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yng Nghymru⁹, a monitro'r gwaith o'i weithredu.

Rydym wedi:

- cyhoeddi a lledaenu'r Canllawiau i Lywodraethwyr ar Drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol¹⁰; a
- chyhoeddi a lledaenu'r Canllaw Arferion Da: Dull Addysg Gyfan¹¹.

Byddwn yn:

- parhau i hyrwyddo'r Canllaw Arferion Da i bob ysgol a'u dyletswyddau o dan Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol;
- gweithio gydag Ysgolion Arloesi i sicrhau bod y Canllaw Arferion Da yn cael ei ystyried wrth ddatblygu'r cwricwlwm newydd;
- sicrhau bod rhwymedigaethau'r Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol wedi'u hymgorffori o fewn Canllawiau diwygiedig Perthnasoedd a Rhywioldeb mewn Addysg. Er y cyfeirir at y Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, bydd y rhwymedigaethau'n parhau ar yr awdurdodau lleol ac nid ar yr ysgolion eu hunain;
- gweithio gyda CCAUC i gryfhau'r dull o wella arferion diogelu a chydnerthedd, cefnogi mentrau gweithwyr a myfyrwyr sy'n mynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, aflonyddu a ffactorau niweidiol eraill sy'n effeithio ar iechyd meddwl; a
- gweithio gyda CCAUC i ddatblygu Canllaw Arferion Da penodol i'r sector a chanllawiau perthnasol eraill.

Sicrhau bod datblygiad y cwricwlwm newydd, ac yn benodol y Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Llesiant, yn mynd ati mewn dull 'addysg gyfan' ac yn helpu plant a phobl ifanc i feithrin yr wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau a fydd yn eu galluogi i ddatblygu perthnasoedd cadarnhaol a phriodol.

Rydym wedi:

- ymateb i argymhellion y Panel o Arbenigwyr Rhyw a Pherthnasoedd.

⁹ <http://livefearfree.gov.wales/policies-and-guidance/good-practice-guide-a-whole-education-approach?lang=cy>

¹⁰ <https://gov.wales/docs/livefearfree/160316-governor-guide-cy.pdf>

¹¹ <https://gov.wales/docs/dsjlg/publications/commsafety/151020-whole-education-approach-good-practice-guide-cy.pdf>

Byddwn yn:

- datblygu cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion a wnaed gan y Panel o Arbenigwyr Rhyw a Pherthnasoedd.
- sicrhau bod amcanion y Strategaeth Genedlaethol yn llywio datblygiad y cwricwlwm newydd a'r canllawiau i gynnwys *ystod o bynciau megis addysg ar gyfer disgyblion lesbiaidd, hoyw, deurywiol, trawsrywiol, queer a rhyngrywiol a mwy (LGBTQI +), materion o gydsyniad rhywiol ac atal trais yn erbyn menywod.*

Trefnu bod Estyn yn cynnal adolygiad thematig er mwyn deall y dulliau a'r ymatebion cyfredol i drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ac addysg perthnasoedd iach mewn ysgolion.

Rydym wedi:

- comisiynu Estyn i gynnal yr Adolygiad Thematig ac wedi ymateb i'w gasgliadau.¹²

Byddwn yn:

- rhoi'r argymhellion a nodwyd yn yr Adolygiad Thematig ar waith ac yn cefnogi ysgolion i'w gweithredu hefyd.

Cyhoeddi rheoliadau a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu gwybodaeth am y camau y maent yn eu cymryd i hyrwyddo diben y Ddeddf wrth gyflawni eu swyddogaethau addysgol.

Byddwn yn rhoi'r cam gweithredu hwn ar waith, os tybir bod hynny'n angenrheidiol. Yng ngoleuni'r adolygiad presennol o'r cwricwlwm, ac argymhellion y Grŵp o Arbenigwyr Addysg Rhyw a Pherthnasoedd, nid oes tystiolaeth glir bod angen gwneud hyn ar hyn o bryd. Bydd y sefyllfa hon yn cael ei hadolygu'n barhaus.

Astudiaeth Achos:

Dyweddodd yr Ysgrifennydd Addysg, Kirsty Williams, fod dyddiau addysg rhyw draddodiadol wedi hen fynd.

"Mae dyddiau addysg rhyw draddodiadol wedi hen fynd; mae'r byd wedi symud ymlaen a rhaid i'n cwricwlwm wneud yr un fath.

"Ni ddylai rhyw gael ei addysgu'n annibynnol ar bopeth arall ar unrhyw gyfrif oherwydd, yn syml, mae cymaint mwy i'r peth na rhyw yn unig; mae'n ymwneud â chydberthynas, hawliau a pharch a rhaid i hynny fynd law yn llaw â dealltwriaeth ehangach o rywioldeb. Bydd unrhyw beth llai yn gwneud cam â'n dysgwyr a'n hathrawon.

"Mae'n ffaith bod cydberthynas a rhywioldeb yn siapio'n bywydau yn ogystal â'r byd o'n cwmpas. Maent yn rhan hanfodol o bwy ydym ni a sut rydym ni'n deall ein hunain, ein gilydd a chymdeithas.

¹²

<https://www.estyn.llyw.cymru/sites/default/files/documents/A%20review%20of%20healthy%20relationships%20education%20cy.pdf>

"Trwy greu Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb fel maes astudio statudol yn ein cwricwlwm newydd i Gymru, byddwn ni'n cynorthwyo ein pobl ifanc i ddatblygu cydberthnasoedd iach, cynnal iechyd meddwl da a chadw'n ddiogel yn gorfforol ac yn rhywiol.

"Wrth reswm, ddeng mlynedd ar hugain ar ôl cyflwyno Adran 28, byddwn yn sicrhau hefyd fod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn cynnwys pob rhywedd a rhywioldeb ac yn diwallu anghenion dysgwyr LGBTQI +.

"Yn hollbwysig i hyn oll, byddwn yn sicrhau bod gan ein hathrawon y wybodaeth a'r hyder i gyflwyno'r Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb mae ein dysgwyr yn ei haeddu. Dyna pam rydym yn ceisio sicrhau ein bod yn cael yr hyfforddiant a'r datblygiad proffesiynol yn iawn.

"Ddeng mlynedd ar hugain yn ôl, beirniadodd Margaret Thatcher awdurdodau addysg lleol am addysgu plant bod ganddynt hawl ddiymwad i fod yn hoyw. Rwyf eisiau i bob un o'n dysgwyr wybod bod ganddo hawl ddiymwad i fod yn hapus – dyma sydd wrth wraidd y newidiadau rydym ni'n eu cynnig."

Amcan 3: Mwy o ffocws ar ddwyn cyflawnwyr i gyfrif, a darparu ymyriadau a chymorth iddynt newid eu hymddygiad gyda phwyslais ar ddiogelwch y dioddefwr.

Rydym yn cydnabod na allwn fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn effeithiol heb weithio i atal cyflawnwyr rhag cam-drin yn y lle cyntaf ac mae hwn yn faes gwaith y mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i'w ddatblygu.

Yr hyn y dywedodd y Strategaeth y byddai Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gyflawni'r amcan hwn a'r hyn y byddwn yn ei gyflawni yn benodol:

Gan weithio gyda rhanddeiliaid perthnasol, byddwn yn datblygu a chyhoeddi canllawiau. Ein bwriad yw y bydd y canllawiau yn cynnwys egwyddorion arfer da sy'n seiliedig ar ymchwil gyfredol a thystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio, ac y bydd yn cynnwys y disgwyliadau lleiaf ar gyfer comisiynu rhaglenni ar gyfer cyflawnwyr, er mwyn sicrhau bod diogelwch, rheoli risg a darparu cymorth i bartneriaid / cynbartneriaid yn rhan annatod o unrhyw raglen a gomisiynir yng Nghymru.

Rydym wedi:

- sicrhau bod canllawiau drafft ar gyfer comisiynu gwasanaethau trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn cynnwys ystyried goblygiadau penodol i gomisiynu gwasanaethau cyflawnwyr;
- datblygu fforwm arbenigol ar gyfer gwasanaethau cyflawnwyr i rannu / rhwydweithio; a
- phenodi seicolegydd fforensig, o dan drefniant cydweithredol â Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi yng Nghymru, i arwain gwaith mewn perthynas â chyflawnwyr.

Byddwn yn:

- gweithio gyda gwasanaethau arbenigol ar gyfer cyflawnwyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol o'r sectorau statudol ac anstatudol yng Nghymru i sicrhau bod safonau / egwyddorion newydd ar gyfer gwasanaethau cyflawnwyr yn cwrdd ag anghenion Cymru;

- gweithio gyda phartneriaid academaidd i adolygu'r dystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio gyda chyflawnwyr;
- goruchwyllo cynhyrchu canllawiau ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus sydd â chysylltiad â chyflawnwyr;
- gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu cynlluniau penodedig ar gyfer troseddau merched a chyfiawnder ieuenctid yng Nghymru, gan gyd-fynd â Strategaeth Cyfiawnder yng Nghymru a gwaith y Comisiwn Cyfiawnder. Bydd y cynlluniau penodedig hyn yn adlewyrchu anghenion menywod a phlant / pobl ifanc sydd mewn perygl o gyflawni trais yn erbyn menywod, a throseddau cam-drin domestig a thrais rhywiol; a
- sicrhau bod datblygiad polisi trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn cyd-fynd â'r 'Fframwaith i Gefnogi Newid Positif ar gyfer y rheini sydd mewn Risg o Droseddu yng Nghymru 2018-2023'

Sefydlu panel dysgu Cymru i rannu dysg ac arferion da o Adolygiadau o Ddyladdiadau Trais Domestig ac adolygiadau diogelu eraill, er mwyn atal niwed pellach.

Rydym wedi:

- secondio Prif Gwnstabl Cynorthwyol o Heddlu Dyfed-Powys i gwblhau adolygiad o Adolygiadau o Ddyladdiadau Domestig yng Nghymru.

Byddwn yn:

- rhoi'r casgliadau o'r adolygiad o Adolygiadau o Ddyladdiadau Domestig ar waith;
- mynd i'r afael â bylchau data a nodwyd yn ystod prosesau Adolygu Dynladdiadau Domestig;
- cynnal a rhannu asesiadau risg gyda darparwyr gwasanaethau cyflawnwyr i lywio achosion cyfiawnder teuluol Cam-drin Domestig;
- creu ystorfa ganolog ar gyfer yr holl adolygiadau diogelu yng Nghymru lle gellir dadansoddi'r themâu, patrymau, ffactorau risg a dulliau gweithredu trwy ddefnyddio dysgu peiranyddol i allosod data i lywio darparwyr gwasanaethau; a
- chreu panel dysgu am ddiogelu ar gyfer adolygiadau monitro, argymhellion, cynlluniau gweithredu a lledaenu dysgu thematig ac arfer da o Adolygiadau Dynladdiadau Domestig i lywio datblygu cysylltiadau hyfforddi gyda'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol.

Byddwn yn gweithio gyda'r Swyddfa Gartref, Comisiynwyr Heddlu a Throseddu a Phartneriaethau Diogelwch Cymunedol yng Nghymru i sicrhau bod pobl yn cael eu diogelu mewn sefyllfaoedd y tu allan i'r cartref, lle gallent fod yn agored i niwed. Bydd hyn yn cynnwys camau gweithredu o dan Gynllun Cyflawni drafft Camddefnyddio Sylweddau 2016-18, megis Byrddau Cynllunio Ardal, Partneriaethau Diogelwch Cymunedol, Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, yr Heddlu a Safonau Masnach yn gweithio gyda'i gilydd i rannu gwybodaeth ac i gynnal ymgyrchoedd wedi'u targedu at leihau niwed, mewn perthynas ag Economi'r Nos.

Rydym wedi:

- cyhoeddi ein Fframwaith Trin Camddefnyddio Sylweddau ar gydweithio rhwng Camddefnyddio Sylweddau a Cham-drin Domestig;
- cyhoeddi ein Fframwaith ar gyfer Rheoli Economi'r Nos yng Nghymru (Rhagfyr 2016) sy'n darparu strwythur i bob rhanddeiliad allweddol

gynorthwyo i ddatblygu a diogelu economi'r nos sy'n iach, diogel a chynaliadwy;

- mapio camau gweithredu Grŵp Cyflawni Gweithwyr Rhyw Cymru er mwyn llywio agenda ehangach Adolygiadau Dynladdiadau Domestig.
- cydweithio â Phrifysgol Abertawe i gyflwyno rhaglen hyfforddi ledled Cymru ar waith rhyw a chamddefnyddio sylweddau. Bydd yn cael ei droi'n e-ddysgu a bydd ar gael ar wefan Lleihau Niwed sydd ar y ffordd; a
- sefydlu Grŵp Arwain Atal Caethwasiaeth Cymru i godi ymwybyddiaeth a datblygu mentrau i fynd i'r afael â phob math o gaethwasiaeth ledled Cymru.

Byddwn yn:

- sefydlu mecanwaith ar gyfer cyfathrebu ar y cyd rhwng y pedwar Comisiynydd Heddlu a Throseddau a Llywodraeth Cymru i alluogi dysgu ar y cyd a chydweithio;
- sefydlu mecanwaith ar gyfer cyfathrebu â'r Swyddfa Gartref i sicrhau integreiddio gweithgareddau heb eu datganoli a galluogi rhannu cynnydd ar elfennau perthnasol o Gynllun Gweithredu Strategaeth Llywodraeth y DU ar Drais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol;
- adolygu dysgu o brosiect Braenaru i Fenywod Cymru i lywio datblygu gweithio ar y cyd â throseddwy'r benywaidd;
- nodi cyfleoedd i weithio ar y cyd o fewn y Cynllun Cyflawni ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau a gweithio ar draws Llywodraeth Cymru i roi'r cyfleoedd hynny ar waith.
- llywio'r adolygiad o Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol a rhoi arweiniad ar eu rôl o ran mynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol; a
- pharhau i weithio gyda'n partneriaid i nodi a chyflwyno mentrau i fynd i'r afael â phob math o gaethwasiaeth ledled Cymru.

Astudiaeth Achos: Adolygiad o Ddyladdiadau Domestig

Ym mis Hydref 2017, dechreuodd y Prif Gwnstabl Cynorthwyol Liane James ar secondiad i Lywodraeth Cymru i ymgymryd â gwaith ar agenda Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol. Ffocws penodol oedd:

"Asesu effeithiolrwydd ymateb Llywodraeth Cymru, y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol a gwasanaethau cyhoeddus eraill i Adolygiadau Dynladdiadau Domestig a gwneud argymhellion o ran sut y gallai gwasanaethau cyhoeddus Cymru eu rhoi ar waith yn llawn"

Wrth gynnal yr adolygiad hwn, ymgysylltwyd ac ymgynghorwyd â mwy na 40 o fudiadau, asiantaethau a deiliaid swyddi er mwyn deall tirwedd Adolygiadau Dynladdiadau Domestig, y manteision a'r hyn y mae angen ei newid i wella'r system, ond yn bwysicach fyth, i wella'r canlyniadau i'r teuluoedd .

Mae rhanddeiliaid yn cytuno bod angen cynnal adolygiad o unrhyw ddigwyddiad trasig lle mae bywyd wedi cael ei golli o ganlyniad i drais domestig, ac i ddysgu gwersi o'r adolygiad hwnnw fel y gellir datblygu arfer yn y dyfodol gyda'r fantais o edrych yn ôl. Fodd bynnag, mae angen system fwy cydlynol ar gyfer adolygiadau yng Nghymru, sy'n adlewyrchu'r arferion gorau ym maes diogelu wrth ddatblygu adolygiadau ymarfer oedolion a phlant.

Amcan 4: Rhoi blaenoriaeth i ymyrryd yn gynnar ac atal

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod ymyrryd yn gynnar yn hanfodol er mwyn atal trais rhag gwaethygu ac er mwyn lleihau'r niwed i ddiodefwrwr a'u plant. Mae adnabod trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol cyn gynted â phosibl a darparu ymateb priodol er mwyn lleihau'r effaith a'r niwed yn hanfodol er mwyn cyflawni dibenion y Strategaeth hon o ran atal, amddiffyn a chynorthwyo.

Yr hyn y dywedodd y Strategaeth y byddai Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gyflawni'r amcan hwn a'r hyn y byddwn yn ei gyflawni yn benodol:

Gweithio ar draws y Llywodraeth a chyda rhanddeiliaid allweddol i ddatblygu dulliau sy'n seiliedig ar dystiolaeth, a'u prif ffrydio i sicrhau bod ymyrryd yn gynnar ac atal yn digwydd yn gyson a'u bod yn arfer craidd ar hyd a lled Cymru.

Rydym wedi:

- datblygu dull yn seiliedig ar egwyddorion at "Ofyn a Gweithredu";
- asesu mabwysiadu "Gofyn a Gweithredu" yn gynnar mewn safleoedd peilot ar sail dreigl a defnyddio dysgu i lywio proses raddol o'i gyflwyno'n genedlaethol;
- cyhoeddi cyfres o ddogfennau canllawiau drafft "Gofyn a Gweithredu";
- ac mae Grŵp Arwain Atal Caethwasiaeth Cymru wedi datblygu rhaglen hyfforddi gyson sy'n cael ei chyflwyno ledled Cymru ac sy'n rhan o'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol; ac
- rydym wedi ymgorffori ymyrryd yn gynnar ac atal (gan gynnwys agenda Profiadau Niweidiol mewn Plentynod) yn y Ddogfen Cychwyn Prosiect ar gyfer ffrwd gwaith Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn y 'Fframwaith i Gefnogi Newid Positif ar gyfer y rheini sydd mewn Risg o Droseddu yng Nghymru 2018-2023'.

Byddwn yn:

- sefydlu dulliau sy'n seiliedig ar dystiolaeth i adolygu prosiectau peilot / prawf cysyniad parhaus er mwyn sicrhau bod ymyrryd yn gynnar ac atal yn digwydd yn gyson ledled Cymru;
- gweithio gydag awdurdodau perthnasol, lle bo'n briodol, i ddatblygu model ar gyfer ariannu a chyflwyno prosiectau peilot er mwyn sicrhau cysondeb o ran ymyrryd yn gynnar ac atal ledled Cymru;
- parhau i gydgyssylltu ar draws Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau bod polisïau trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn adlewyrchu materion cydraddoldeb o ran rhywedd / croestoriadol ehangach ac anghydraddoldebau cymdeithasol ac economaidd;
- cydlynu cysylltiadau ar draws agendâu ataliol Llywodraeth Cymru o ran nodau Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a dyletswyddau Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant er mwyn sicrhau eu bod yn cyd-fynd ac yn cydnabod atal trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol; ac
- ymgorffori cyllid ar gyfer rhaglenni ataliol yn y model ar gyfer cyllid cynaliadwy a'i integreiddio i'r canllawiau comisiynu ar gyfer cyrff perthnasol.

Byddwn yn cyhoeddi canllawiau statudol ac yn gweithredu'n llawn yr egwyddorion "Gofyn a Gweithredu" gan gefnogi gweithwyr proffesiynol priodol o fewn awdurdodau perthnasol i ddeall arwyddion trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, i ddefnyddio ymchwiliad wedi'i dargedu ac i weithredu drwy gyfeirio'r

unigolyn yn briodol.

Rydym wedi:

- asesu mabwysiadu "Gofyn a Gweithredu" yn gynnar mewn safleoedd peilot ar sail dreigl a defnyddio dysgu i lywio proses raddol o'i gyflwyno'n genedlaethol; a
- chyhoeddi cyfres o ddogfennau canllawiau drafft "Gofyn a Gweithredu".

Byddwn yn:

- cyflwyno "Gofyn a Gweithredu" yn genedlaethol; a
- pharhau i fonitro effaith y dogfennau hyn ac yn diwygio ac ailgyhoeddi gyda darpariaethau statudol yn ôl yr angen.

Hyrwyddo cyfleoedd i ymyrryd yn gynnar ac atal a datblygu gwasanaethau arloesol.

Rydym wedi:

- datblygu ymgyrch ymwybyddiaeth Atal Caethwasiaeth a chynnal sesiynau rheolaidd mewn meysydd awyr a phorthladdoedd yng Nghymru, canolfannau trafndiaeth, gorsafoedd rheilffyrdd mawr a mannau cyhoeddus eraill, gan gynnwys Sioe Frenhinol Cymru a digwyddiadau cyhoeddus mawr eraill; ac
- ariannu prosiect Sbectrwm, prosiect Cymru gyfan i ysgolion i hyrwyddo pwysigrwydd perthnasoedd iach a chodi ymwybyddiaeth o gam-drin domestig, trais rhywiol a thrais yn erbyn menywod. Mae Sbectrwm hefyd yn darparu hyfforddiant i staff ysgol a llywodraethwyr ynglŷn â deall effaith cam-drin domestig ar blentyn ac yn codi ymwybyddiaeth trwy edrych ar ddull ysgol gyfan tuag at fynd i'r afael â cham-drin domestig.

Byddwn yn:

- gweithio gyda sefydliadau statudol ac anstatudol sy'n gweithio'n ataliol er mwyn datblygu gwasanaethau arloesol er budd dioddefwyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yng Nghymru;
- cefnogi mecanweithiau cyfranogi ar gyfer goroeswyr er mwyn sicrhau bod eu llais yn ganolog i lywio gwaith atal ac arloesi; a
- pharhau i godi ymwybyddiaeth o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, gan gynnwys Atal Caethwasiaeth, ym mhob digwyddiad cyhoeddus mawr, canolfannau trafndiaeth a Meysydd Awyr Cymru.

Byddwn yn gweithio gyda'r Cyngorydd Cenedlaethol, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, gwasanaethau arbenigol, lechyd Cyhoeddus Cymru a gwasanaethau i oedolion a phlant i sicrhau bod teuluoedd a nodwyd eu bod angen cymorth i fyw gyda phrofiadau andwyol yn ystod plentyndod sy'n ymwneud â cham-drin domestig a thrais rhywiol yn cael mynediad at ymyriadau sydd eisoes yn bodoli ac sy'n cael eu cyflawni gan wasanaethau arbenigol.

Rydym wedi:

- gweithio gyda Hyb Profiadau Niweidiol mewn Plentyndod lechyd Cyhoeddus Cymru i drafod sut y bydd ein dulliau'n cyd-fynd, e.e. o ran hyfforddiant; a
- chytuno y bydd y Grŵp Diogelu traws-lywodraethol yn cynnwys ystyried trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol a Phrofiadau Niweidiol mewn Plentyndod.

Byddwn yn:

- monitro a yw'n cyd-fynd â chanllawiau Llywodraeth Cymru ar ddarparu gwasanaethau a ariennir gan Deuluoedd yn Gyntaf trwy awdurdodau lleol i deuluoedd sy'n dioddef trais domestig yn flynyddol;
- gosod Fframwaith i Hyb Profiadau Niweidiol mewn Plentynod ymgysylltu â'r sector trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol a chael ei lywio gan arbenigedd ym maes trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol; a
- bydd Cydlynedd Atal Caethwasiaeth Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda'r Cyngorwyr Cenedlaethol i sicrhau bod yr agenda wedi'i hymgorffori'n llawn ym mhob menter ac ymyriad perthnasol.

Astudiaeth Achos: Gofyn a Gweithredu

Rhoi "Gofyn a Gweithredu" ar waith ym maes iechyd

Mynychodd claf clinig ar gyfer triniaeth. Roedd y meddyg wedi cwblhau hyfforddiant "Gofyn a Gweithredu" Grŵp 2 yn ddiweddar a nododd fod y claf yn dangos rhai o ddangosyddion profiad posibl o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig neu drais rhywiol. Gofynnodd y meddyg i'r claf mewn modd sensitif a oedd wedi dioddef cam-drin domestig. Gwnaeth y claf ddatgeliad, gan olygu bod y meddyg yn gwneud yr atgyfeiriad priodol i wasanaethau cymorth arbenigol gyda chydysniad y claf. Atgyfeiriwyd y claf at y Gynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg (MARAC) lleol hefyd.

Ychydig wythnosau'n ddiweddarach, roedd gan yr un claf apwyntiad dilynol yn y clinig a gwelodd yr un meddyg. Diolchodd y claf i'r meddyg am ofyn y cwestiwn iddi (ar gam-drin domestig) ac am ei hatgyfeirio. Dywedodd fod y cam hwn wedi trawsnewid ei bywyd, gan ei bod bellach yn teimlo'n ddiogel yn ei chartref ei hun ac nad oedd hi wedi teimlo fel hyn ers amser maith.

Cyfaddefodd y meddyg na fyddai fwy na thebyg wedi codi'r drafodaeth am gam-drin domestig cyn yr hyfforddiant "Gofyn a Gweithredu". Rhannodd y meddyg adborth y claf gyda'i chydweithwyr gan bwysleisio pwysigrwydd hyfforddiant "Gofyn a Gweithredu" a gwerth ymarferol "Gofyn a Gweithredu".

Diben y Ddeddf Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol: Amddiffyn

Dull gweithio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol: Hirdymor, Cydweithio, Cynnwys, Integreiddio

Mae amddiffyn yn agwedd hollbwysig ar ein gwaith; mae angen inni gydweithio fel gwasanaeth cyhoeddus i amddiffyn y rhai sy'n profi trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ar hyn o bryd rhag dioddef niwed pellach, ac amddiffyn unrhyw blant yn y teulu.

Mae hyn yn galw am ymateb cydgysylltiedig a chydweithredol lle bydd arbenigedd a phrofiad y sector arbenigol trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol a goroeswyr yn hollbwysig inni ei gael yn iawn.

Mae un amcan yn cefnogi'r diben o ran amddiffyn y rhai sy'n profi'r materion hyn ar hyn o bryd.

Amcan 5: Hyfforddi gweithwyr proffesiynol perthnasol i ddarparu ymatebion effeithiol, amserol a phriodol i ddiodefswyr a goroeswyr

Yr hyn y dywedodd y Strategaeth y byddai Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gyflawni'r amcan hwn a'r hyn y byddwn yn ei gyflawni yn benodol:

Byddwn yn gweithredu'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol yn llawn, gan sicrhau bod gweithwyr proffesiynol ym mhob awdurdod perthnasol (gan gynnwys iechyd, awdurdodau lleol, Ymddiriedolaethau'r GIG a Gwasanaethau Tân ac Achub) yn cael cymorth i gynyddu eu dealltwriaeth a'u gwybodaeth am drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, gan arwain at ymatebion gwell i ddatgeliadau.

Rydym wedi:

- datblygu a chyhoeddi'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol; mae hwn yn ganllaw statudol ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol; a
- datblygu a chyflwyno rhaglen e-ddysgu i godi ymwybyddiaeth o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, cynyddu gwybodaeth am y dangosyddion a gwella hyder y dysgwyr i gynnig help trwy linell gymorth Byw Heb Ofn. Mae 127,000 o bobl wedi cwblhau'r e-ddysgu (neu raglen gyfwerth leol).

Byddwn yn:

- arolygu'r gwaith o gyflwyno'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol trwy fonitro ffurflenni data, adolygu cynlluniau hyfforddi ac adroddiadau blynyddol i sicrhau bod awdurdodau perthnasol yn cwrdd â'u gofynion statudol, ac yn cael eu cefnogi pan na fodlonir y gofynion;
- ystyried angen yn erbyn y Fframwaith yn flynyddol a chynnig gweithgaredd lle bynnag y bo modd o fewn paramedrau'r gyllideb;
- monitro'r angen am hyfforddiant arbenigol ac ystyried ffyrdd o ddiwallu'r angen hwnnw; a
- pharhau i gyflwyno'r Rhaglen Hyfforddi Atal Caethwasiaeth ar draws Cymru.

Byddwn yn edrych ar y cysylltiadau rhwng y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol a hyfforddiant a gynigiwyd gan Heddluoedd a'r Coleg Plismona, gan nodi'r bylchau mewn gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth i fynd i'r afael â cham-drin domestig yn effeithiol¹³.

Byddwn yn:

- rhoi cyngor i awdurdodau perthnasol ar weithio gyda phartneriaid i roi hyfforddiant ar waith yn briodol; a
- chysylltu â'r Coleg Plismona Cenedlaethol mewn perthynas â'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol a chreu cysylltiadau lle bo hynny'n briodol.

Byddwn yn rhoi "Gofyn a Gweithredu" ar waith yn llawn, gan gynorthwyo gweithwyr proffesiynol priodol mewn awdurdodau perthnasol i ddeall arwyddion trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, i ddefnyddio dull holi wedi'i dargedu ac i weithredu trwy atgyfeirio'r person yn briodol.

¹³ Increasingly everyone's business: A progress report on the police response to domestic abuse: HMIC 2015
<https://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmic/wp-content/uploads/increasingly-everyones-business-domestic-abuse-progress-report.pdf>

Rydym wedi:

- profi "Gofyn a Gweithredu" mewn dau safle mabwysiadu cynnar, gan gyrraedd 1300 o weithwyr proffesiynol yn y cyfnod prawf yn ystod 2015-2016; ac
- ehangu'r gwaith o roi "Gofyn a Gweithredu" ar waith i dri rhanbarth / sefydliad arall yn ystod 2017-2018.

Byddwn yn:

- parhau i gyflwyno "Gofyn a Gweithredu" yn raddol gan anelu at gyflwyno'r broses yn genedlaethol erbyn 2021.

Gweithio ochr yn ochr â'r Bwrdd Diogelu Cenedlaethol i gyfrannu ymhellach at y dulliau gweithredu ar gyfer diogelu yng Nghymru pan fyddant yn ymwneud â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Rydym wedi:

- cyfarfod â'r Bwrdd Diogelu Cenedlaethol mewn perthynas ag Adolygiadau Dynladdiadau Domestig er mwyn llywio'r gwaith a sicrhau bod argymhellion yn gydnaws.

Byddwn yn:

- gweithio gyda'r Bwrdd Diogelu Cenedlaethol i gefnogi gwaith i gysoni diogelu a phrosesau trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn well;
- diweddarau'r canllawiau statudol ar Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant, gan sicrhau y gellir cyfeirio trefniadau ar gyfer plant sy'n troi'n 18 oed yn briodol at wasanaethau trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol;
- datblygu canllawiau ymarfer ar faterion diogelu i'w defnyddio ar y cyd â'r Gweithdrefnau Amddiffyn Cenedlaethol newydd, gan gynnwys masnachu plant, camfanteisio'n rhywiol ar blant ac ymddygiadau rhywiol niweidiol;
- cefnogi Byrddau Diogelu i ddarparu hyfforddiant ar gyfer ymgorffori polisi a deddfwriaeth Llywodraeth Cymru megis, Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant, Gweithdrefnau Amddiffyn Cenedlaethol a chanllawiau ymarfer cysylltiedig a chynyddu gallu yn y rhaglenni hyfforddi diogelu amlasiantaethol;
- datblygu Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar Gam-drin Plant yn Rhywiol, gan gynnwys camfanteisio'n rhywiol ar blant ac ymddygiadau rhywiol niweidiol; a
- chomisiynu ymgyrch codi ymwybyddiaeth gan "Stop It Now"¹⁴ i gyflwyno sesiynau codi ymwybyddiaeth uniongyrchol i weithwyr proffesiynol a rhieni / gofalwyr trwy'r 6 Bwrdd Diogelu Plant.

Byddwn yn parhau i gydweithio â'r Heddlu, Comisiynwyr Heddlu a Throsedd, Gwasanaeth Erllyn y Goron, cyfreithwyr ac ynadon, y llysoedd, y gwasanaeth prawf a charchardai, i wella ymateb pob asiantaeth cyfiawnder troseddol yng Nghymru i'r sawl sy'n rhoi gwybod i'r heddlu am drosedd.

Rydym wedi:

¹⁴ <https://www.stopitnow.org.uk/wales.htm>

- gweithio gyda phartneriaid i lansio'r 'Fframwaith i Gefnogi Newid Positif ar gyfer y rheini sydd mewn Risg o Droseddu yng Nghymru 2018-2023', gan sicrhau bod sefydliadau allweddol yn cael eu cynrychioli ar bob un o'r ffrydiau gwaith;
- gweithio gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder i sicrhau bod y Strategaeth Troseddwr Benywaidd yn cael ei lywio gan farn Cymru ac yn ymateb i faterion i Gymru;
- ffurfio a chyd-gadeirio 'Grŵp Strategaeth Cyfiawnder yng Nghymru' i sicrhau bod asiantaethau cyfiawnder troseddol allweddol yn cydweithio i gynllunio darpariaeth gwasanaethau yng Nghymru yn y dyfodol; a
- chyd-gadeirio Grŵp Llwybrau Lleihau Aildroseddu, gan adrodd ar gynnydd ar integreiddio gwasanaethau i Fwrdd Rheoli Integredig Troseddwr Cymru a Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru Gyfan.

Byddwn yn:

- gweithio gyda Gwasanaeth Erlyn y Goron i ddatblygu ymateb integredig i gynyddu nifer yr erlyniadau sy'n ymgorffori cefnogi'r sector arbenigol i ddarparu cefnogaeth yn y llys, cysylltiadau â'r Fframwaith cyfathrebu i gynyddu dealltwriaeth o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol a darparu gwybodaeth sy'n chwalu mythau i'r cyhoedd (a allai gael eu dewis i fod yn rhan o reithgor);
- gweithio gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder i sicrhau bod y Strategaeth ar gyfer Dioddefwyr yn cael ei llywio gan farn Cymru ac yn ymateb i faterion i Gymru; a
- gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu cynlluniau penodedig ar gyfer troseddu merched a chyfiawnder ieuenctid yng Nghymru, gan gyfrannu at y Comisiwn Cyfiawnder yn gyffredinol.

Byddwn yn gweithio gyda'r Gwasanaeth Cyngori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd (CAFCASS) Cymru i sicrhau bod staff yn adnabod ac yn asesu'r risgiau a'r effeithiau cysylltiedig ac yn atgyfeirio'n briodol i wasanaethau cymorth lleol.

Byddwn yn:

- cefnogi hyfforddiant staff CAFCASS ar Reoli Cymhellol a chodi ymwybyddiaeth o "Gofyn a Gweithredu";
- gweithio gyda phartneriaid yn y DU gan gynnwys y Swyddfa Gartref a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder i gefnogi datblygu Mesur Cam-drin Domestig y DU a'i roi ar waith.

Gweithio gydag ysgolion i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r canllawiau ar Gadw Dysgwyr yn Ddiogel, sy'n nodi bod rhaid i ysgol gynnal ethos o ddiogelu a hybu lles plant a phobl ifanc, ac amddiffyn staff.

Rydym wedi:

- parhau i gyfarfod yn rheolaidd gyda'n rhwydwaith ymarferwyr, y Grŵp Diogelu mewn Addysg, i sicrhau bod y canllawiau ar Gadw Dysgwyr yn Ddiogel yn cael eu rhoi ar waith yn effeithiol ac i ofyn am gyngor a chymorth wrth ddiweddarau'r canllawiau; a

- gweithio'n agos gyda chydweithwyr yn y Gwasanaethau Cymdeithasol ac Iechyd wrth ddatblygu cyfres o ganllawiau a gyhoeddwyd o dan Rhan 7 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae'r gyfres hon o ganllawiau yn rhoi eglurder ynglŷn â rôl y rhai sy'n gweithio mewn gwasanaethau addysg o ran sicrhau bod arferion a pholisïau diogelu effeithiol ar waith.

Byddwn yn:

- diweddarau'r canllawiau ar Gadw Dysgwyr yn Ddiogel yn 2018-19. Bydd y diweddariad yn ystyried newidiadau mewn meysydd polisi perthnasol. Bydd y diweddariad hwn yn cael ei ddatblygu gyda'r Grŵp Diogelu mewn Addysg;
- ymgymryd â gweithgaredd cyfathrebu i hysbysebu'r canllawiau wedi'u diweddarau ar ddechrau 2019-20; a
- diweddarau ac ail-gyhoeddi'r modiwlau ar-lein ar Gadw Dysgwyr yn Ddiogel ar Hwb, yn unol â'r diweddariad i'r canllawiau ar Gadw Dysgwyr yn Ddiogel ac yn dilyn adborth gan randdeiliaid, sicrhau bod yr hyfforddiant yn gyfoes ac yn ffeithiol gywir.

Hybu'r defnydd o lwybrau atgyfeirio integredig lleol i sicrhau bod pobl yn cael eu cyfeirio at y gwasanaeth y mae ei angen arnynt.

Byddwn yn:

- archwilio modelau megis Rhanbarth Hybiau Diogelu Amlasiantaethol a dulliau amgen sy'n galluogi dioddefwyr a chyflawnwyr i gael mynediad at wasanaethau yn lleol.

Monitro ac adrodd yn ôl ar y gwaith o weithredu Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, a fydd yn ei gwneud yn bosibl targedu'r sawl sy'n cyflawni cam-drin domestig a'u troi allan, gan alluogi'r dioddefwr ac aelodau eraill o'r teulu i aros yn eu cartref os yw'n ddiogel gwneud hynny.

Rydym wedi:

- cynnwys gwybodaeth gyffredinol am Gam-drin Domestig yn y Cod Canllawiau ar gyfer Rhentu Doeth Cymru.

Byddwn yn:

- sicrhau bod gofyniad deddfwriaethol bod yr holl contractau meddiannaeth yn cynnwys gwybodaeth esboniadol sy'n nodi y bydd cam-drin domestig yn torri'r contract, ac felly gallai arwain at y sawl sy'n cyflawni yn cael eu troi allan.

Datblygu a chyhoeddi canllawiau amlasiantaethol i annog a chefnogi mwy o gydweithio a rhannu gwybodaeth.

Rydym wedi:

- gwranddo ar y rhai a ymatebodd i'n hymgyngoriad ar ganllawiau statudol drafft ar amlasiantaethau ac wedi cydnabod yr angen i gynnwys cydweithio amlasiantaethol yn ein gwaith rhanbartholi yn hytrach na chyhoeddi canllawiau ar wahân; ac

- cefnogi byrddau iechyd lleol ac awdurdodau lleol i gydweithio ar ddrafftio strategaethau lleol neu ranbarthol.

Byddwn yn:

- ymateb i'r safbwyntiau a gafwyd yn ystod yr ymgynghoriad ar Ganllawiau Comisiynu Rhanbarthol drafft i fwydo'r canllawiau terfynol.

Astudiaeth Achos: Consortiwm Seren Môr

Mae Consortiwm Seren Môr yn bartneriaeth o sefydliadau arbenigol sy'n gweithio gyda'i gilydd i roi terfyn ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Cafodd consortiwm Seren Môr ei ffurfioli'n ddiweddar ar ôl cwblhau gweithdrefn diwydrwydd dyladwy ac arwyddo'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth.

Mae'r consortiwm yn cynnwys y partneriaid canlynol sy'n darparu gwasanaethau trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol:

- Bawso
- Hafan Cymru
- New Pathways
- Cymorth i Ferched Port Talbot ac Afan
- Cymorth i Ferched Abertawe

Prif nod a phwrpas y consortiwm yw cryfhau, cynnal, datblygu a diogelu gwasanaethau cam-drin domestig, trais rhywiol a thrais yn erbyn menywod ar draws y rhanbarth. Nod y bartneriaeth yw sicrhau ethos o barch, ymddiriedaeth a thegwch ac i weithredu ar y cyd ar y sail bod dull cyfunol yn gryfach na sefydliadau unigol yn gweithredu ar eu pen eu hunain, er mwyn bod yn fwy cydnerth gyda'r gallu i ymateb yn effeithiol.

Bydd y Consortiwm yn cydweithio i:

- gynnig am a darparu gwasanaethau i gefnogi goroeswyr-ddioddefwyr cam-drin domestig, trais rhywiol a thrais yn erbyn menywod, i gefnogi busnes craidd pob aelod;
- cynnig am a darparu gwasanaethau i atal y troseddau hyn, i gefnogi busnes craidd pob aelod;
- rhannu, trafod a datblygu prosiectau, gweithgareddau a ffynonellau cyllid newydd;
- darparu cydgefnogaeth strategol ac ymarferol;
- archwilio a datblygu strategaethau i leihau a lliniaru risg i'r sector cam-drin domestig, trais rhywiol a thrais yn erbyn menywod;
- rhannu arbenigedd a phersonél, lle bo'n briodol;
- datblygu llais ar y cyd ar faterion cyffredin a rhannu rolau cynrychioliadol;
- rhannu gwybodaeth a data fel sy'n briodol ac o fewn deddfwriaeth Diogelu Data;
- osgoi dyblygu a chystadleuaeth ddianghenraid;
- gosod safonau i sicrhau bod gwasanaethau cyfannol, o ansawdd uchel a chyson yn cael eu darparu; a

- meithrin cydnerthedd sefydliadol unigol trwy ethos partneriaeth a chydweithredu.

Diben y Ddeddf Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol: Cymorth

Dull gweithio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol: Hirdymor, Cydweithio, Cynnwys, Integreiddio

Mae rhoi cymorth i bobl yr effeithir arnynt gan drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn gallu bod yn gymhleth, gan fod profiadau ac anghenion pobl yn gallu bod yn dra gwahanol. Fodd bynnag, mae angen inni hybu diwylliant cefnogol, a hwnnw'n cael ei ategu gan ystod o wasanaethau sydd yn y sefyllfa orau i ymateb i anghenion unigolion a theuluoedd.

Mae un amcan yn ategu'r diben o gefnogi'r rhai sy'n profi trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Amcan 6: Rhoi mynediad cyfartal i ddiodefwyr at wasanaethau ledled Cymru, a'r rheini'n wasanaethau holistaidd o ansawdd uchel y darperir adnoddau priodol ar eu cyfer, sy'n seiliedig ar gryfderau, sy'n cael eu harwain gan anghenion ac sy'n ymatebol i rywedd

Yr hyn y dywedodd y Strategaeth y byddai Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gyflawni'r amcan hwn a'r hyn y byddwn yn ei gyflawni yn benodol:

Parhau i ariannu Llinell Gymorth Byw Heb Ofn, gan ddarparu cymorth cyfrinachol 24 awr a chefnogaeth i'r sawl sy'n destun trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Rydym wedi:

- darparu ymateb cenedlaethol cydlynol i drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, sy'n cynnig prif bwynt cyswllt, yn bennaf ar gyfer y rheiny sydd ag anghenion cymorth brys, a chynyddu galwadau gan oroeswyr sy'n ceisio cymorth / cymorth ymarferol;
- darparu ymateb 24 awr, 365 diwrnod y flwyddyn am ddim, sy'n ddiwylliannol sensitif / amlieithog yn ôl anghenion y galwr;
- gwneud y gorau o gysylltiadau uniongyrchol a'r cysylltiadau sydd gan y llinell gymorth â gwasanaethau aelodau lleol sydd, yn aml, yn darparu cam nesaf yr ymateb i oroeswyr sydd angen cymorth trwy fodel prif ganolfan a lloerennau megis Byrddau Iechyd Hywel Dda a Betsi Cadwaladr, Iechyd Cyhoeddus Cymru; a
- chefnogi Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru i ddarparu llinell gymorth a gwybodaeth trwy lwybr gofal integredig. Enillodd y Llinell Gymorth wobwr Effaith Llinell Gymorth yn y DU yn 2016 ar gyfer gwaith mewn partneriaeth ag Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru.

Byddwn yn:

- parhau i ddarparu cymorth parhaus yn ôl y gofyn i Linell Gymorth a gwefan Byw Heb Ofn; ac

- ail-gomisiynu Gwasanaeth Llinell Gymorth Byw Heb Ofn yn barod ar gyfer diwedd contract presennol Byw Heb Ofn.

Cyhoeddi canllawiau i Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd Lleol fel sail i ddatblygu strategaethau lleol sy'n ofynnol o dan y Ddeddf, gan gynnwys asesiadau o anghenion.

Rydym wedi:

- cyhoeddi canllawiau drafft ar ddatblygu strategaethau lleol ar gyfer Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd Lleol.

Byddwn yn:

- monitro'r gwaith o gyflawni'r ddyletswydd i gyhoeddi strategaethau lleol ac adolygu cynnwys strategaethau lleol; a
- darparu cymorth parhaus i Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd Lleol wrth i'w strategaethau lleol gael eu rhoi ar waith.

Byddwn yn gweithio gydag Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd Lleol wrth iddynt ddatblygu eu strategaethau lleol o dan y Ddeddf a chynnal dadansoddiad o anghenion, gan gynnwys mapio eu gwasanaethau presennol, a datblygu dulliau comisiynu newydd, i sicrhau bod y gwasanaethau y maent yn eu darparu'n diwallu angen eu cymuned.

Byddwn yn:

- sefydlu grŵp o arbenigwyr ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol er mwyn llywio strategaethau lleol ac, yn y tymor hir, eu dwyn i gyfrif am eu cyflwyno, gan sicrhau bod gwasanaethau comisiynu'n cynnal trafodaeth â gwasanaethau cyfiawnder troseddol; a
- chomisiynu adolygiad o ffrydiau ariannu ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yng Nghymru.

Cyhoeddi canllawiau statudol ar gyfer awdurdodau perthnasol ynghylch comisiynu gwasanaethau trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, gan adeiladu ar y canllaw arferion da "Tackling Violence Against Women, Domestic Abuse and Sexual Violence – A Collaborative Commissioning Toolkit for Services in Wales".

Rydym wedi:

- cyhoeddi canllawiau comisiynu drafft ar gyfer ymgynghoriad ffurfiol sy'n:
 - hybu comisiynu cydweithredol o ansawdd uchel sy'n darparu gwasanaethau sector cyhoeddus, preifat a gwirfoddol mwy cyson ac effeithiol i atal trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ac amddiffyn a chefnogi dioddefwyr; ac sy'n
 - ategu Pecyn Cymorth Comisiynu Sefydliad Lloyds a Chanllawiau ar gyfer Strategaethau Lleol Llywodraeth Cymru, sy'n nodi prosesau ar gyfer comisiynu gwasanaethau cymorth cenedlaethol nad ydynt, o reidrwydd, yn cyd-fynd â'r modelau comisiynu arferol.

Byddwn yn:

- adolygu adborth o'r ymgynghoriad ar y Canllawiau Comisiynu Rhanbarthol statudol drafft ac yn diwygio'n unol â hynny. Bydd y camau nesaf yn amodol ar adborth ymgynghori; ac
- os caiff ei gyhoeddi fel canllaw statudol, byddwn yn gweithio gyda Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'u dyletswyddau.

Cydweithio â rhanddeiliaid i ddatblygu model ariannu cynaliadwy ar gyfer darparu gwasanaethau arbenigol trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol i ategu'r gwaith o gyflawni'r Strategaeth hon.

Rydym wedi:

- cyflwyno model cyllido rhanbarthol ar gyfer trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol er mwyn darparu mwy o gysondeb a chydweithredu amlasiantaethol effeithiol; a
- darparu cymorth parhaus i fyrddau rhanbarthol i ddatblygu eu strwythurau yn barod ar gyfer comisiynu gwasanaethau'n llawn o fis Ebrill 2019.

Byddwn yn:

- archwilio model cyllid cynaliadwy ar draws cyllidebau pob rhanddeiliad (gan gynnwys trafod ag asiantaethau heb eu datganoli).

Cynnal adolygiad o'r cyllid presennol gan Lywodraeth Cymru sy'n cyfrannu at wasanaethau trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol i sicrhau ein bod yn defnyddio'r cyllid sydd ar gael yn y ffordd orau i gynorthwyo unigolion a theuluoedd sy'n destun trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol a chyflawni amcanion y Strategaeth hon.

Byddwn yn:

- mapio adnoddau ar gyfer trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, gan sicrhau ei bod yn cynnwys cyllid ar draws ffrydiau gan gynnwys cyllid heb ei ddatganoli ac yn nodi bylchau mewn cyfranwyr

Parhau i hybu safonau ansawdd gwasanaeth a fframwaith achredu ar gyfer gwasanaethau arbenigol.

Rydym wedi:

- ffurfio grŵp gorchwyl a gorffen gyda rhanddeiliaid i ddatblygu safonau i wasanaethau ar gyfer cyflawnwyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yng Nghymru; a
- sefydlu digwyddiadau rhannu ymarfer rheolaidd i wasanaethau ar gyfer cyflawnwyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol i godi ymwybyddiaeth o raglenni achrededig yng Nghymru

Byddwn yn:

- datblygu diffiniad clir o'r sector arbenigol yn seiliedig ar y safonau ansawdd sydd ar gael;
- cyhoeddi safonau i wasanaethau ar gyfer cyflawnwyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol sy'n ategu safonau eraill, wrth barhau i weithio gyda darparwyr achredu presennol;
- sicrhau fod comisiynwyr yn ymwybodol o safonau ansawdd perthnasol ym mhob maes trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol trwy

gynnwys Fframweithiau a safonau ansawdd gwasanaeth yn y canllawiau comisiynu; a

- defnyddio safonau ansawdd gwasanaeth perthnasol i lywio datblygiad y model ar gyfer cyllid cynaliadwy i'r sector arbenigol.

Sicrhau llwybrau cymorth integredig i ddiwallu anghenion dioddefwyr sy'n profi anfanteision lluosog.

Rydym wedi:

- datblygu Canllawiau Comisiynu Rhanbarthol drafft mewn cydweithrediad ag arbenigwyr ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, sydd ar hyn o bryd yn destun ymgynghoriad
- rhoi arian i Bawso i gefnogi dioddefwyr a goroeswyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol o wahanol ethnigrwydd, ffoaduriaid a cheiswyr lloches a'r rheiny yr effeithir arnynt gan arferion diwylliannol niweidiol.

Byddwn yn:

- cyfathrebu pwysigrwydd nodi a mynd i'r afael ag anghenion dioddefwyr ag anfanteision lluosog trwy asesiadau, strategaethau lleol a chynlluniau gwasanaeth; ac yn
- ystyried sut mae trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn croestorri ag anfanteision eraill ac yn mapio camau gweithredu strategol er mwyn sicrhau bod y gwaith yn cyd-fynd ac wedi'i integreiddio ar draws Llywodraeth Cymru.

Parhau i annog sefydliadau i fabwysiadu polisiâu trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ar gyfer eu gweithle.

Rydym wedi:

- hybu e-ddysgu i'r holl staff o fewn Llywodraeth Cymru, ochr yn ochr â hyfforddiant ychwanegol a gwell hyfforddiant ar gyfer staff AD er mwyn sicrhau bod gan weithwyr y gallu a'r gefnogaeth i ymateb i ddatgeliad; a
- hybu cyrsiau perthnasol rhaglenni hyfforddi Atal Caethwasiaeth Cymru ar draws sefydliadau yng Nghymru.

Byddwn yn:

- sefydlu gwaelodlin o bolisiâu arferion da ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ledled Cymru a pharhau i annog sefydliadau i fabwysiadu polisiâu'r gweithle da.

Astudiaeth Achos: Partneriaeth Ranbarthol Gogledd Cymru

Dros y blynyddoedd diwethaf mae awdurdodau lleol a sefydliadau'r trydydd sector wedi bod yn symud tuag at dull rhanbarthol o ran comisiynu a chyllido gwasanaethau trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Bydd y dull newydd, a gaiff ei roi ar waith yn raddol, yn gwella gwerth am arian ac yn sicrhau arbedion effeithlonrwydd trwy gydgyllido gwasanaethau yn rhanbarthol a gweinyddu ar y cyd. Bydd hefyd yn lleihau dyblygu trwy fwy o gydweithio.

Mae Partneriaeth Ranbarthol Gogledd Cymru yn cynnwys y sefydliadau canlynol:

- Y chwe awdurdod lleol yng ngogledd Cymru gyda Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru yn gweithredu fel banciwr ar gyfer y rhanbarth;
- Heddlu Gogledd Cymru;
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
- Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn gweithredu fel banciwr ar gyfer y rhanbarth;
- Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru;
- Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
- Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol
- Y Gwasanaeth Carchardai - Berwyn; a'r
- Sefydliadau'r Trydydd Sector

Mae'r rhanbarth wedi datblygu dull cydweithredol cryf tuag at ddarparu gwasanaethau arbenigol i ddiodefwyr a goroeswyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Datblygwyd Bwrdd Strategol Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Gogledd Cymru yn 2016 i weithio mewn partneriaeth i sicrhau'r ymateb mwyaf effeithlon ac effeithiol i atal niwed difrifol a achosir gan drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Mae'r Bwrdd Strategol a'r banciwr rhanbarthol wedi gweithio gyda'i gilydd i gyfuno'r arian presennol gan Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r grant trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ac i ddiogelu darpariaeth Ymgynghorwyr Annibynnol Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol a rhaglenni ar gyfer cyflawnwyr ym mhob un o'r chwe awdurdod lleol.

O Ebrill 2018, bydd gwasanaethau a gomisiynir yn cwblhau un cynllun busnes yn unol â llawlyfr llywodraethu Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd ar gyfer yr holl arian gan y ddau gyllidwr. Byddant hefyd yn dilyn Fframwaith canlyniadau y cytunwyd arno i sicrhau eu bod yn monitro eu gwasanaethau gan ddefnyddio mesuriadau tebyg. Disgwylir i'r Fframwaith canlyniadau gael ei gadarnhau yn haf 2018 a bydd yn awgrymu cyfres o ganlyniadau y gall gwasanaethau, gan weithio â Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r tîm rhanbarthol, ddewis ohonynt, yn ôl yr hyn sy'n gweddu orau i'w gwasanaeth a'i effaith ar ddefnyddwyr gwasanaeth.

Y Camau Nesaf

Bydd y Fframwaith hwn yn cael ei adolygu'n flynyddol i sicrhau ei fod yn adlewyrchu'n gywir y gwaith sy'n cael ei wneud a'i gynllunio. Bydd yr adolygiad yn cyd-fynd â chyhoeddi'r adolygiad blynyddol o'r cynnydd a wnaed tuag at gyflawni amcanion Deddf (Cymru) 2015.